



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gofal Seibiant Care Ltd

Gofal Seibiant Care Ltd
44-46 Y Stryd Fawr
Llangefni
LL77 7NA

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/08/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gofal Seibiant Care Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gofal Seibiant Care Ltd
Lleuedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal mewn sawl ardal wahanol yng Ngwynedd. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn fodlon ar y cyfan ar lefel y gofal a roddir. Mae problemau staffio mewn rhai ardaloedd wedi golygu bod aelodau o'r staff wedi cael eu galw o ardaloedd eraill i gyflenwi ar gyfer galwadau ac mae hyn wedi arwain at oriau gwaith hwy a mwy o deithio iddynt. Mae problemau staffio hefyd wedi golygu bod rhywfaint o alwadau wedi cael eu colli yn ystod misoedd yr haf; cymerwyd camau disgyblu priodol gan y darparwr. Mae'r staff gofal yn ymrwymedig ac yn ceisio helpu i gyflenwi ar gyfer galwadau gofal lle y bo'n bosibl. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn sôn yn gadarnhaol am eu rolau a'r cymorth y maent yn ei gael ond maent wedi cydnabod y gall y pellter teithio effeithio ar eu trefn o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ac yn cael goruchwyliaeth un i un yn rheolaidd.

Mae'r darparwr a'r tîm rheoli yn ymrwymedig i'w rolau a'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Maent yn hyrwyddo dulliau gweithredu a diwylliant cadarnhaol, rhagweithiol, gonest ac agored. Mae'r problemau staffio wedi effeithio ar ansawdd y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn cydnabod yr effaith hon. Fodd bynnag, mae'r Unigolyn Cyfrifol a rheolwyr y gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrhau bod y bobl yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae systemau a phrosesau yn monitro sut y darperir y gwasanaeth yn llwyddiannus er mwyn ei wella yn barhaus. Mae'r darparwr yn canolbwyntio ar recriwtio staff drwy'r amser. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cynnig gwasanaeth dwyieithog lle y bo'n bosibl. Mae'n ymateb i bryderon a materion sy'n codi, er enghraifft galwadau a gollwyd a materion disgyblu. Mae'n effeithiol o ran hysbysu,

cyfathrebu a rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am faterion neu bryderon sy'n codi.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau a'u harferion dyddiol. Caiff asesiadau trylwyr eu cwblhau cyn i'r bobl dderbyn y gwasanaeth. Ceir ffocws ar hunaniaeth y bobl, eu dewis iaith, eu dewisiadau a'u harferion i greu cynlluniau a chofnodion gofal cynhwysfawr. Mae'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â staff sy'n siarad Cymraeg lle y bo'n bosibl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn derbyn gofal gan yr un gofalwyr y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r staff gofal yn cynorthwyo'r bobl i ymgymryd â'u harferion dyddiol yn unol â'r cynlluniau iechyd. Gwnaethom edrych ar gynlluniau personol a oedd yn dangos bod y staff gofal yn cofnodi i'r system electronig wrth i ni arolygu. Mae'r cofnodion yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â chynlluniau personol. Mae'r darparwr yn falch o sicrhau bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt.

Caiff anghenion llesiant emosiynol a chorfforol y bobl eu diwallu. Mae anghenion gofal y bobl yn cael eu hystyried yn drylwyr a chaiff y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y cynlluniau gofal. Mae arferion a chanlyniadau llesiant y bobl yn allweddol i'r cynlluniau a'r gofal a ddarperir. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn llawn anogaeth. Dywedodd un person wrthym. "*The girls who call are lovely*". Mae cyfathrebu rhwng y bobl, eu gofalwyr a'r rheolwyr yn effeithiol, sy'n golygu bod diweddariadau perthnasol ac angenrheidiol yn cael eu gwneud ar gofnodion ac arferion gofal. Mae'r tîm rheoli yn monitro gofal yn fanwl ac yn cymryd camau amserol i gofnodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen a'u rhoi ar waith. Cysylltir â gweithwyr proffesiynol yn ôl yr angen er mwyn rhoi cyngor a chymorth.

Caiff y bobl eu diogelu rhag y risg o niwed. Caiff risgiau i'r bobl eu nodi cyn iddynt dderbyn y gwasanaeth a rhoddir asesiadau risg priodol ar waith. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant priodol mewn diogelu, symud a chodi, cymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am rywun. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio materion sy'n peri pryder yn effeithiol ac yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu mewn modd amserol. Mae dull agored a gonest y darparwr yn golygu bod modd cymryd camau i unioni neu wella'r meysydd sy'n achos pryder, er enghraifft lefelau staffio.

Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolion ac yn gallu cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae gan y bobl gynlluniau personol cyfredol electronig. Caiff gwybodaeth fanwl ei chofnodi am hanes bywyd y bobl, lleoedd o bwys, hobiau, diddordebau a dewisiadau personol. Caiff ffrindiau a pherthnasau eu cynnwys yn y broses o gasglu gwybodaeth. Mae'r system electronig yn hwyluso gwell mynediad a rhannu gwybodaeth bwysig. Er enghraifft, mae'r staff gofal, y bobl, a'u perthnasau yn gallu cael mynediad at gynlluniau personol a chofnodion dyddiol ar unrhyw bryd gyda chaniatâd y person. Gall gweithwyr proffesiynol hefyd gael mynediad at wybodaeth cyn adolygiadau, gan eu helpu i ddeall yn well y gofal a'r cymorth a ddarperir ac unrhyw bryderon sy'n codi. Rydym wedi cael mynediad at wybodaeth o bell yn ystod yr arolygiad. Mae'r cofnodion yn dangos bod y system hon yn fyw, yn effeithiol, ac yn hygyrch i bawb, lle y bo'n briodol.

Gall yr unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol o ran sut y dylid darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal. Mae ymarferwyr gofal ac uwch-aelodau o'r staff yn rhoi gwybod i reolwyr am unrhyw newidiadau; maent hefyd yn gweithredu fel gweithwyr allweddol i rai pobl. Mae hyn wedi cael ei dreialu, felly nid yw pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gweithwyr allweddol. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael dewis yr un staff gofal. Mae rhestrau gwirio o anghenion yn cael eu hadolygu a'u monitro. Maent yn cynnwys y ddogfen "*About me*", sy'n cynnwys gwybodaeth am faterion meddygol, codi a chario, tasgau, trefn o ddydd i ddydd, dewisiadau a dymuniadau. Mae'r ddogfen hon yn cael ei llywio gan wybodaeth a roddir gan asiantaethau eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, sy'n llywio'r cynllun personol. Caiff ffeiliau papur eu cadw yng nghartrefi'r bobl ac mae'r staff gofal yn diweddarau cofnodion drwy ffonau symudol. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro gan y darparwr yn rheolaidd neu pan fydd anghenion gofal yn newid.

Caiff y bobl gymorth i gael gfael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant yn barhaus. Mae'r wybodaeth am iechyd yn cael ei hystyried a chaiff cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol ei chofnodi a gweithredu arno. Mae cysylltiadau priodol yn cael eu meithrin â gweithwyr iechyd proffesiynol, ac mae cynlluniau personol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu hyn. Mae'r sampl o gynlluniau personol a welsom yn dangos newidiadau i gynlluniau gofal yn dilyn newidiadau i anghenion iechyd neu gymorth gan ymarferwyr iechyd. Gwelsom ohebiaeth â gweithwyr iechyd proffesiynol a sbardunodd addasiadau i gofnodion gofal, sy'n teilwra lefel y gofal a roddir. Mae'r bobl yn derbyn gofal o ansawdd da, sy'n cael ei fonitro'n fanwl.

Mae'r darparwr yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau ar waith ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant. Mae cynlluniau personol yn atgoffa'r staff gofal i sicrhau eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) a bod cyflenwadau ar gael yn y swyddfa.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr gwasanaethau wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac mae'n sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo ffurfiol rheolaidd. Mae'r sampl o ffeiliau'r staff yn dangos bod dyddiadau hyfforddi a goruchwyllo yn gyson â'r rhaglen hyfforddi a'r cynllun goruchwyllo. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Rydym wedi darllen y cofnod diweddaraf o drafodaeth y cyfarfod tîm. Maent yn dangos trafodaethau am iechyd a diogelwch, diogelu, a staffio. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal eu defnyddio sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r darparwr yn cyflogi rhywun i sicrhau bod y systemau electronig yn ddiogel ac yn gysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod y systemau wedi'u symleiddio, sy'n golygu bod modd treulio mwy o amser ar gynllunio gofal ac anghenion gofal.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod trefniadau ar waith i oruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â'r rheoliadau ac sy'n sicrhau y caiff gwybodaeth a safbwyntiau a ddaw i law eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Rydym wedi adolygu adroddiad Ansawdd diweddaraf yr Unigolyn Cyfrifol o 2024. Mae hwn wedi'i lywio gan archwiliadau rheolaidd ac adroddiadau misol ar ansawdd y gwasanaeth; caiff adroddiadau ar wahân eu llunio ar gyfer meysydd gwahanol. Gwelsom sampl o archwiliadau a chynllunydd archwiliadau'r gwasanaeth. Mae'n dangos bod y tîm rheoli yn goruchwyllo'r gwasanaeth hwn, gan gynnwys cynlluniau personol, ffeiliau staff, hapwiriadau, a galwadau a gollwyd neu alwadau hwyr. Caiff holiaduron blynyddol eu dosbarthu i'r bobl, eu teuluoedd, a'r gweithwyr proffesiynol i gasglu adborth am safbwyntiau'r bobl am y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn ymdrechu i sicrhau prosesau gwerthuso a monitro parhaus i ysgogi gwelliant.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwyllo trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn ariannol gynaliadwy ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel a chyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr yn monitro materion ariannol fel rhan o'i waith cynllunio archwilio. Mae wedi buddsoddi mewn prynu adeilad lle mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yng nghanol y dref. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ac yn mynychu cyfarfodydd yn yr adeilad hwn. Gwelsom y staff gofal yn mynd a dod o'r lleoliad hwn.

Caiff yr unigolion eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff addas sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sy'n ofynnol i alluogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ac mae ffeiliau'r staff yn dangos hyn. Mae'r staff yn cael sesiynau sefydlu trylwyr, sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau blynyddol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn derbyn eu rotas ymlaen llaw sy'n cynnwys map o union leoliad cartrefi'r bobl.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 17/10/2024